# 15 BWMBA

(*BWMBA*)




2. O'r diwedd mi briodes,
   Bwmba bwmba bwmba dwdl ei,
   Â'r lana' ferch a weles;
   Fe fuse'n well imi, wir ddyn byw,
   Briodi â Gwyddeles!

3. Ni fedre weu na gwinio,
   Bwmba bwmba bwmba dwdl ei,
   Na golchi'n lân na smwddo,
   Na chwiro patshyn ar fy mritsh,
   Fe haedde'r bitsh ei chico!

4. Ni fedre dderwyn dafe',
   Bwmba bwmba bwmba dwdl ei,
   Na medru cwiro sane,
   Ond un peth fedre-(h)i'n eitha' da,
   Sef gweitho twmplins fale.

5. Fe gane wrth fynd i'r gwely,
   Bwmba bwmba bwmba dwdl ei,
   Fe lefe beth wrth godi;
   Eistedde lawr yn ochor (y) tân,
   Fuse awr ddim byd iddi grafu!